CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 4 RHAGFYR 2018

Cadeirydd
Ei theilyngdod Y Maer - Cyng E R Hughes

Presennol
W T Owen , I C Thomas , B Owen , W Lloyd Davies, A Hopcyn, E Lovgreen, C Williams, M Sarnacki, K Jones, J W Parry , S Sage, D L Jones

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng R Thomas, Cyng W R Owen , Cyng K Richards

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

Noson Nadoligaidd Biwmares

3. **Datgan Buddiant Personol**

C Williams – eitem 10 – llythyr y Llewod
Y clerc - fel yn y pwyllgor cyllid os fy trafodaeth pellach

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Adran Fasgiwlar Ysbyty Gwynedd

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 6 Tachwedd 2018
ii. Panel Cyllid 13 Tachwedd 2018
-Cafwyd drafodaeth am ychwynegu llinell o dan pennawd gwariant awdurdodedig parthed ein cais i gynnal yr Eisteddfod genedlaethol yn 2021. Eglurodd y clerc ni fysa rhaid codi presept er mwyn gwneud hyn
iii. Pwyllgor Gwaith 20 Tachwedd 2018
-cafwyd diweddariad gan y clerc y bod modd codi a hel mewn rhai mannau or fynwent yn unig am gost ychwnegol
iv. Pwyllgor Personél 27 Tachwedd 2018 nodwyd y bydd yr adroddiad yn cael eu rhoi yn gyfrinachol i bob aelod cyn cyfarfod Mis Ionawr ac i aros yn gyfrinachol
Penderfynwyd
i. Derbyn fel rhai cywir (unfrydol)
ii. Derbyn y cofnodion a'r argymhellion i gyd gan ychwanegu un llinell ychwanegol o dan gwariant awdurdodedig am £7000 i gyfrif banc newydd am gyfnod o 3 mlynedd yn enw Steddfod Caernarfon 2021. Efo amod mai dim ond os ydi'r cais yn llwyddiannus i ddenu steddfod i ganol y dref . (unfrydol)
iii. Derbyn yr argymhellion gan gynnwys torri a hel yn y llefydd a chaniateir yn y fynwent (unfrydol)
iv. Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

6. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn au talu (unfrydol)

7.Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

8. Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gyfer Sir Gwynedd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

9**. E-bost gan Cylch yr Iaith**

Parthed Twristiaeth yng Ngwynedd

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a gofyn wrth Cyngor Gwynedd am copi o'i ymateb (unfrydol)

10. **Ffigyrau Clwb y Llewod**

Parthed Noson Tan Gwyllt

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diolchwyd yn fawr iawn i'r Llewod am ei gwaith caled (unfrydol)

11. **Drafft Cofnodion cyfarfod blynyddol a cyfarfod arferol Trefi Caerog**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth ond gofyn os oes modd cael cofnodion yn ddwyieithog os ydynt yn gorff cyhoeddus (unfrydol)

12. **Rhybudd o Gynnig Cyng. W T Owen**

Parthed Cygodfan bws

Penderfynwyd

Cefnogi'r cais ond angen llythyru y tai cyfagos a'r heddlu am eu barn cyn symud ymlaen (unfrydol)

13**. Rhybudd o Gynnig Cyng. C. Larsen**

Parthed llyfryn Rhyfel Byd Cyntaf

Penderfynwyd

Cefnogi'r cynnwys a'r clerc i gychwyn trafodaethau (unfrydol)

14. **Rhybudd o Gynnig Cyng. C. Larsen**

Parthed cysgodfan bws yn Doc Fictoria

Penderfynwyd

Derbyn cynnwys a'r clerc i weithredu wrth lythyru'r busnesau am gefnogaeth a trafod efo'r perchnogion. Unwaith fydd caniatâd y perchennog yna gofyn wrth y busnesau os ydynt yn dymuno cyfrannu tuag at y gost (unfrydol)

15. **Calendr y Cyngor**

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

16 Rheoliadau Ariannol y Cyngor

Penderfynwyd

Derbyn y newidiadau ac yna eu mabwysiadu yn ffurfiol (unfrydol)

17. Llywodraeth Cymru

Lwfans Adran 137

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth (unfrydol)

18. Cwestiynau

Oes na broblem efo'r gwres ? oes

Eitem brys (cafodd y rheolau sefydlog eu rhoi i un ochr er mwyn ei drafod)

Parthed adran fasgiwlar

Nodwyd cyhoeddiad bod yr adran yn symud ym Mis Ionawr oedd yn mynd yn erbyn yr holl addewidion

Penderfynwyd

Ysgrifennu at Cadeirydd newydd y bwrdd yn mynegu barn cryf o anhapusrwydd (unfrydol)

Eitem Eithriedig

19. Prisiau yswiriant

Penderfynwyd

Mynd efo Cwmni Zurich am 3 blynedd (unfrydol)

20. **Prisiau Nwy**

Penderfynwyd

Mynd efo Regent Gas adeg y renewal a talu trwy Direct Debit (unfrydol)

Gorffenodd y cyfarfod am 7.20

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....